# ATODLEN 13

## RHYDDHAD AR GYFER CAFFAELIADAU SY'N YMWNEUD AG ANHEDDAU LLUOSOG

*Adeiladau penodol sydd eto i'w hadeiladu neu i'w haddasu i gyfrif fel annedd*

8 (1) At ddibenion yr Atodlen hon, cymerir mai prif destun y trafodiad yw buddiant mewn annedd neu ei fod yn cynnwys buddiant mewn annedd—

(a) os dyddiad cyflawni contract yn sylweddol yw'r dyddiad y mae'r trafodiad hwnnw yn cael effaith yn rhinwedd darpariaeth dybio berthnasol,

(b) os yw prif destun y trafodiad yn ffurfio neu'n cynnwys buddiant mewn adeilad, neu ran o adeilad, sydd i'w adeiladu neu i'w addasu o dan y contract i'w ddefnyddio fel annedd, ac

(c) os nad yw'r gwaith o adeiladu neu addasu'r adeilad, neu'r rhan o adeilad, wedi dechrau erbyn i'r contract gael ei gyflawni'n sylweddol.

(2) Yn is-baragraff (1)—

mae "contract" ("*contract*") yn cynnwys unrhyw gytundeb;

mae i "cyflawni'n sylweddol" ("*substantially performed*") yr ystyr a roddir gan adran 14;

ystyr "darpariaeth dybio berthnasol" ("*relevant deeming provision*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) adran 10 (contract a throsglwyddo),

(b) adran 11 (contract sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i drydydd parti),

(c) paragraff 8(1) i (5) o Atodlen 2 (aseinio hawliau: trin y trosglwyddwr fel pe bai'n gwneud caffaeliad ar wahân), neu

(d) paragraff 20 o Atodlen 6 (cytundeb ar gyfer les).

(3) Mae is-adrannau (4) i (7) o adran 72 (ystyr eiddo preswyl) yn gymwys at ddibenion y paragraff hwn fel y maent yn gymwys at ddibenion is-adran (1)(a) o'r adran honno.